**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Bethan Jenkins
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

16 Chwefror 2017

Annwyl Bethan

**Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cael gohebiaeth gan Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG), sydd wedi amgáu ei drosolwg cenedlaethol a gynhyrchwyd mewn perthynas â'r fersiwn ddrafft o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer y cyfnod 2017-20.

Mae copi o'r e-bost ataf, a chopi o'r ddogfen drosolwg wedi'u hamgáu. Sylwer fod RhAG wedi galw ar y Gweinidog i wrthod y rhan fwyaf o'r Cynlluniau drafft gan nad ydynt yn bodloni'r cynigion uchelgeisiol sydd eu hangen.

Hoffai Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gyfeirio at y wybodaeth gan RhAG fel rhan o'i ymchwiliad i Strategaeth Iaith Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru. Bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn aros am ganlyniad yr Ymchwiliad hwnnw cyn ystyried unrhyw gamau pellach o ran y Cynlluniau Strategol, gan gynnwys a ddylid ymgymryd ag unrhyw waith dilynol i'n hymchwiliad ar y Cynlluniau Strategol yn y Pedwerydd Cynulliad.

Efallai yr hoffech hefyd gael gwybod fy mod wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn mynegi pryderon y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch yr ohebiaeth a gafwyd gan RhAG a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae copi o'm llythyr at y Gweinidog wedi'i amgáu hefyd.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565